

**Tanciau
Domestig**

Olew

Gwresogi

Diogelu eich lechyd a'r Amgylchedd rhag olew a gollwyd ac a ollyngwyd

Cyflwyniad

Os ydych chi neu rywun rydych yn eu hadnabod yn defnyddio tanc olew i gyflenwi gwres canolog sy'n ddibynnol ar danwydd olew, gall y llyfryn hwn helpu i osgoi costau sylweddol, anghyfleustra a risgiau i'ch iechyd a'r amgylchedd sy'n cael eu hachosi pan mae tanc gwres canolog olew yn gollwng o'r tanc storio neu ei rwydweithiau o bibelli.

Bydd y llyfryn hwn yn esbonio pethau y gellir eu gwneud i atal damweiniau megis gollwng a cholli, pwy i gysylltu â nhw am gyngor, a chamau i'w cymryd os yw damwain yn digwydd.

Mae'r rhan fwyaf o ollyngiadau yn cael eu hachosi gan danciau a phibellau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael neu fod nam arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o golli olew yn cael ei achosi gan ladrata neu pan mae'r tanc yn cael ei lenwi.

Mae olew yn wenwynig a gall achosi niwed i'ch iechyd ac iechyd eich teulu, planhigion, anifeiliaid, bywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Gall olew deithio'n bell yn y tir a'r dŵr a gall halogi cronfeydd dŵr tanddaearol yn rhwydd drwy dreiddio'n ddwfn i'r tir. Gall fwyta drwy bibelli'r cyflenwad dŵr a halogi cyflenwadau dŵr yfed.

Dylid atgyweirio tanc sy'n diferu heb oedi, a dylid atal gollyngiadau rhag lledaenu a mynd yn waeth ar unwaith.

Os oes damwain yn digwydd, bydd eich Cyngor Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig cyngor i chi a gallant sicrhau bod y gwaith o'i lanhau yn digwydd yn syth i'r safon briodol, ond ni fyddant yn gallu gwneud, na thalu am y gwaith glanhau drosoch.

Efallai ni fydd cwmnïau yswiriant yn talu os oes tanc wedi gollwng ac wedi'i anwybyddu dros amser. Gwiriwch eich tanc a'ch pibelli'n rheolaidd am ollyngiadau a monitrwch faint o olew rydych yn ei ddefnyddio. Gall cynnydd yn y swm o olew rydych yn defnyddio neu ostyngiad sydyn yn yr olew yn eich tanc olygu ei fod yn gollwng.

Sicrhewch fod eich tanc a phibelli'r cyflenwad olew yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd, gan ddeall y canlyniadau i chi os yw olew yn diferu neu'n cael ei ollwng o'ch system.

Perygl i lechyd

Mae olew yn wenwynig i bobl ac anifeiliaid. Gall achosi i chi a'ch anifeiliaid fynd yn sâl, os yw'n dod i gysylltiad â'r croen, yn cael ei lyncu, drwy fwyta neu yfed, neu'n cael ei lyncu ar ddamwain, ac os yw'r nwyon a'r anwedd y mae'n ei gyflwyno yn cael ei fewnanadlu (ei anadlu i mewn).

Mae'r perygl ar ei waethaf i blant, babanod, merched beichiog sy'n bwydo ar y fron, pobl sy'n dioddef o salwch, a'r henoed.

Gall rhai o'r symptomau y mae dod i gysylltiad ag olew ei achosi fod yn ddifrifol a gall waethygu os ydych yn dod i gysylltiad ag o am gyfnodau hir. Mae symptomau'n cynnwys,

- Cur pen
- Cyfog (teimlo'n sâl) a chwydu
- Dermatitis (brech, cosi, pothelli, croen sy'n pilio)
- Dolur gwddf
- Dolur llygaid
- Teimlo'n chwil, yn benysgafn, wedi blino, ac yn araf wrth ymateb
- Crampiau i'r stumog a dolur rhydd
- Difrod i'r arenau
- Anawsterau anadlu
- Niwmonia
- Anymwybyddiaeth

Nid yn unig yw'r nwyon a'r anwedd sy'n cael ei ryddhau gan olew yn wenwynig, gall fod yn ffrwydrol wrth ei gymysgu ag aer.

Weithiau, mae'r lefelau o nwyon ac anwedd sy'n cael eu rhyddhau mor uchel, nad yw'n ddiogel aros gartref nes bod yr olew wedi cael ei lanhau'n gywir.

Gall olew dreiddio i'r tir a gall deithio'n bell o'r man y bu'n diferu neu'n gollwng.

Mae hyn yn golygu y gall olew deithio drwy'r tir i erddi a thir pobl eraill ac achosi iddynt fod yn sâl. Gall olew dreiddio i mewn i'r tir hefyd ac effeithio ar ddraeniau, isadeiledd a chyflenwadau dŵr, felly mae'n bwysig iawn eich bod yn adrodd unrhyw olew sy'n diferu neu'n gollwng.

Mae olew yn cynnwys sawl sylwedd gwahanol, a gall rhai o'r sylweddau hynny erydu pibelli, gan gynnwys pibelli'r cyflenwad dŵr a halogi dŵr yfed. Gall hyn achosi i'r dŵr flasau ac aroglï'n annymunol, a gall fod yn berygl difrifol i iechyd.

Weithiau, yr unig ddatrysiad yw disodli'r holl biben, a all fod yn drafferthus ac yn ddrud iawn.

Peryglon i'r Amgylchedd

Mae olew yn wenwynig i blanhigion a bywyd gwyllt a gall achosi llygredd difrifol os yw'n canfod ei ffordd i ddŵr wyneb (pyllau, nentydd, afonydd, llynnoedd a'r môr) a dŵr daear (ffynonellau dŵr tanddaearol). Mae olew yn arnofio ar ddŵr a gall ei gario'n bell o'r man lle bu'n diferu neu cafodd ei ollwng.

Gall wneud anifeiliaid, adar, pysgod a chreaduriaid sy'n byw mewn dŵr wyneb yn sâl iawn, gall orchuddio eu croen, eu plu a'u ffwr, sy'n eu gwenwyno wrth iddynt geisio ei lanhau oddi arnynt. Gall orchuddio arwyneb y dŵr ac amharu ar eu cyflenwad o ocsigen hefyd.

Mae dŵr daear yn ffynhonnell bwysig o ddŵr yfed mewn sawl ardal. Fe'i ganfyddir yn ddwfn dan y ddaear, a gellir ei ddefnyddio ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus enfawr o ran maint a chyflenwadau bach, preifat.

Gall olew deithio'n gyflym dros bellteroedd mawr mewn dŵr daear, heb ôl o gwbl ar wyneb y tir.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu defnyddio gan bobl mewn ardaloedd gwledig, ac mae'r mwyafrif o danciau olew gwresogi domestig i'w canfod mewn ardaloedd gwledig lle mae cyfyngiad ar nwy drwy brif gyflenwad.

Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr brofi'r dŵr y maent yn ei gyflenwi dan gyfraith, i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w yfed, ond nid oes angen i'r sawl sy'n defnyddio cyflenwad dŵr preifat brofi'r dŵr maent yn ei ddefnyddio yn yr un modd, felly mae'n bwysig eich bod yn adrodd os yw eich tanc yn diferu neu'n gollwng.

Mae olew yn cynnwys sawl sylwedd gwahanol, a gall rhai o'r sylweddau hynny erydu pibelli, gan gynnwys pibelli'r cyflenwad dŵr a halogi dŵr yfed. Gall hyn achosi i'r dŵr flasau ac aroglï'n annymunol, a gall fod yn berygl difrifol i iechyd.

Peryglon i Eiddo

Gall olew gwresogi dreiddio i mewn i'r tir ac achosi i blanhigion a lawntiau wywo neu farw'n gyfan gwbl. Gall dreiddio i waith brics neu isadeiledd adeiladau a gall wneud difrod neu ddinistrio cwrs atal lleithder.

Weithiau, yr unig ddatrysiad yw tynnu a disodli'r manau a effeithiwyd yn yr adeilad, a all fod yn drafferthus ac yn ddrud iawn.

Os yw'r olew yn canfod ei ffordd ar hyd draeniau, gall deithio'n bell o'r man y cafodd ei ollwng a gall achosi lefelau peryglus o anwedd i gronni.

Os yw olew yn canfod ei ffordd i danciau septig a ffosydd cerrig, gall achosi i lefelau peryglus o anwedd gronni, a gall ddifrodi strwythur y tanc, gan achosi i'r tir o'i amgylch, a'r pwynt lle mae'r tanc septig yn rhyddhau, gael ei halogi hefyd.

Atal y Tanc rhag Diferu neu Ollwng

Mae'n well bob tro atal digwyddiad rhag digwydd yn hytrach na gorfod mynd i'r afael â'r effaith ar ôl iddo ddigwydd.

Mae nifer o gamau y medrwch eu cymryd i sicrhau bod y risg o olew yn diferu neu'n gollwng o'r tanc yn cael ei leihau. Mae'r camau hyn yn cynnwys,

1. Cynnal a Chadw

Gwiriwch eich tanc, y falfiau, y deial, y pibelli a'r bwnd yn rheolaidd. Edrychwch am rwd, erydiad, chwydd, craciau, holtau, tyllau, diferion, manau gwlyb ac olewaidd ar y llawr, difrod, gollyngiadau, rhannau a gosodiadau sy'n rhydd ac arwyddion o ymyrraeth.

Unwaith y flwyddyn, trefnwch fod technegydd o'r Gymdeithas Dechnegol Llosgi Olew (OFTEC) yn dod i archwilio, a rhoi gwasanaeth i'ch system wresogi, yr holl ffordd o'r tanc storio i'r boeler.

Sicrhewch fod y falffiau a'r deialau wedi'u hamddiffyn rhag perygl o gael eu taro, eu symud, neu gael eu difrodi.

2. Diogelwch

Mae tanciau storio olew yn agored i gael eu dwyn a'u fandaleiddio.

Sicrhewch fod caead eich tanc yn ffitio'n dda, a'i gadw dan glo. Os oes gan eich tanc adran fewnol, cadwch honno dan glo hefyd, a pheidiwch â chadw'r cloeon ger y tanc.

3. Monitro

Cadwch lygad ar faint o olew rydych yn ei ddefnyddio. Os ydych chi'n sylwi ar ostyngiad sydyn yn yr olew yn eich tanc neu gynnydd mewn faint o olew rydych yn ei ddefnyddio fel arfer, gall hyn olygu bod y tanc yn gollwng.

Gall ychydig iawn o olew o ddiferiad bach gronni i fod yn ollyngiad mawr os yw'n parhau am amser hir, neu'n cael ei anwybyddu.

Mae'n syniad da cadw cofnod o bryd rydych yn gwirio eich tanc, faint o olew a ddefnyddiwyd, faint o olew a archebwyd, a phryd y'i cyflenwyd.

Mae tanciau storio olew modern yn cael eu gosod gyda bwnd mewnol a larwm i nodi os yw olew wedi cael ei ollwng i'r bwnd. Mae rhai tanciau'n dod â dyfais i ddangos faint o olew sy'n weddill yn eich tanc, a gellir ei blygio i mewn i soced yn y tŷ a'i weithredu o bell.

Mae systemau larwm a monitorau o bell ar gael i'w prynu a'u gosod i danciau hŷn hefyd.

Os nad oes gan eich tanc fwnd, yna fe'ch cynghorir i ddisodli'r tanc gyda thanc modern sy'n ei gynnwys. Os nad oes modd i chi ddisodli eich tanc, yna dylid adeiladu bwnd o'i amgylch.

Cafn yw bwnd, sydd wedi cael ei adeiladu o amgylch y tanc, felly os yw'r tanc yn gollwng neu'n rhwygo ni fydd yr olew tu mewn iddo'n dianc nac yn achosi halogiad.

Dylid adeiladu'r bwnd o fric peirianyddol, concriid neu ddeunydd arall nad yw'n caniatáu i olew dreiddio trwyddo, gan wrthsefyll dŵr ac atal gollyngiad gymaint â phosib. Dylai'r bwnd fod ddigon mawr i ddal 110% o gapasiti'r tanc, h.y. capasiti'r tanc + 10%.

Peidiwch â chael eich temtio i wneud twll neu ddraenio drwy wal y bwnd. Bob nawr ac yn y man, efallai bydd angen i chi wagio dŵr o du mewn y bwnd, ond mae'n bwysig iawn nad oes twll yn y bwnd. Os oes twll, ac mae olew yn gollwng o'r tanc storio, yna byddai'r olew yn draenio drwy'r twll.

Dylech fod yn ymwybodol o le i ganfod y rhwydwaith pibelli sy'n dod o'r tanc a gwybod i le mae'n mynd ac o beth.

Sicrhewch nad yw gwreiddiau coed, palu, gwaith adeiladu, garddio a gwaith arall sy'n cael ei gynnal ar y tir yn difrodi'r pibelli.

4. Cyflenwi

Goruchwyliwch gyflenwadau olew, yn benodol os nad oes modd i'r sawl sy'n llenwi'r tanc ei weld pan mae'n cael ei lenwi. Dylai'r pwynt lle mae eich tanc yn cael ei lenwi fod o fewn y bwnd. Os yw eich tanc yn cael ei lenwi ar bwynt oddi wrtho, dylid gosod larwm neu ddyfais i atal y tanc rhag gorlenwi.

I leihau'r risg o orlenwi, peidiwch ag archebu mwy o olew na'r lle sydd gennych yn eich tanc ar ei gyfer. Gwiriwch lefel yr olew yn y tanc cyn trefnu cyflenwad.

Os yw eich tanc yn cynnwys deial gweledol, sicrhewch fod y falf wedi cau ar ôl gorffen ei lenwi.

Os oes unrhyw olew yn cael ei ollwng yn ystod y cyflenwad, neu pan mae eich tanc yn cael ei lenwi, dylech sicrhau bod y cwmni sy'n cyflenwi'r olew yn glanhau'r gollyngiad yn briodol. Nid yw'n arferol gollwng olew yn ystod cyflenwadau, ac nid yw sebon golchi llestri, ei olchi gyda dŵr, cadach, papur newydd neu wellt anifeiliaid yn addas ar gyfer clirio gollyngiadau, a gall wneud y broblem yn waeth.

Gofynnwch am help gan Swyddog Tir Halogedig eich Cyngor Lleol os oes olew wedi cael ei ollwng neu os nad ydych yn sicr eich bod wedi ei lanhau yn drylwyr.

5. Deial gweledol

Mae deialau gweledol yn ffordd o wirio faint o olew sydd ar ôl yn eich tanc. Mae'r deialau hyn mewn perygl o gael eu bwrw a'u difrodi, ac oherwydd eu bod wedi eu cysylltu â thu mewn y tanc, gall olew ddianc drwyddynt.

Nid yw deialau gweledol yn addas i'w defnyddio ar danc gyda bwnd mewnol. Mae tanciau gyda dyfeisiau synhwyro electronig i ddangos lefel yr olew yn y tanc llawer gwell na deialau gweledol.

Gallwch ddiogelu'r deial gweledol ar eich tanc a lleihau'r risg o ollyngiad ohono mewn sawl ffordd, gan gynnwys,

- sicrhau bod y deial gweledol yn cael ei osod o fewn y bwnd

- sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn briodol fel nad yw'n rhydd ac mewn perygl o gael ei daro, ei chwythu gan y gwynt neu ei ddifrodi
- sicrhewch fod y deial yn cael ei osod gyda falf i'w gau'n awtomatig.
- peidiwch byth â gadel y falf ar agor
- agorwch y falf wrth wirio faint o olew sydd ar ôl yn y tanc yn unig
- goruchwyliwch gyflenwadau bob amser a gwiriwch bod y falf ar gau ar ôl gorffen llenwi'r tanc.

Os ydych chi'n gwirio eich tanc gan ddefnyddio trochbren (dipstick), sicrhewch ei fod yn addas ar gyfer y tanc. Dylid defnyddio'r trochbren sy'n addas ar gyfer ei ddefnyddio mewn tanc yn unig. Nid yw gwirio olew eich tanc gan ddefnyddio'r trochbren o'ch car neu fan yn addas.

6. Lleoliad

Mae Rheoliadau ar waith sy'n esbonio lle gallwch a lle nad oes modd i chi roi olew mewn tanc storio, ac efallai bydd gofynion ychwanegol mewn ardaloedd sy'n agored i lygredd.

Nid ellir storio olew mewn ardaloedd,

- sydd o fewn 50 metr i bistyll, ffynnon neu dwll turio
- sydd o fewn 10 metr i gwrs dŵr wyneb megis pwll, afon, nant, ffos, llyn neu wlyptir.
- lle gallai olew a ollyngwyd fynd i ddraeniau
- lle gallai olew a ollyngwyd redeg dros y tir ac i mewn i ddraeniau, neu gwrs dŵr neu bwll
- lle gallai olew a ollyngwyd dreiddio i mewn i'r tir
- lle gallai olew a ollyngwyd llygru dŵr daear
- lle nad oes modd gweld y tanc o'r pwynt llenwi
- uwchben lefel to, neu lle gallai olew a ollyngwyd redeg ar hyd cafau a pheipiau glaw ac i mewn i ddraeniau
- sydd mewn perygl o lifogi
- dan fondo adeilad
- mewn garej neu sied

Mae gwybodaeth am ardaloedd lle mae perygl o lifogydd ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Dylech gysylltu ag adran Rheoli Adeiladu eich Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru am gyngor ar lle y dylech osod tanc storio olew.

7. Citiau Gorlif

Mae'n syniad da cadw cit gorlif yn agos i'ch tanc storio olew, felly os ydych chi'n sylw bod y tanc yn diferu neu'n gollwng, gallwch ei atal rhag lledaenu.

Peidiwch byth â defnyddio sebon, hylifau golchi llestri neu bowdwr golchi, gan y byddant yn lledaenu'r olew. Peidiwch â chael eich temtio i ddefnyddio pibell ddŵr neu olchi'r olew i ffwrdd, gan y byddai hyn yn debygol o waethygu'r broblem.

Mae citiau gorlif ar gael i'w prynu ac mae eu cynnwys fel arfer yn amrywio yn dibynnu ar faint y gorlif y byddwch angen ei gyfyngu. Dewiswch git gorlif sy'n addas i faint eich tanc.

Mae'r rhan fwyaf o gitiau gorlif yn cynnwys eitemau megis menig rwber, padiau, rhwystrau a gronynnau i amsugno'r olew. Mae'n bwysig cofio eu bod yn amsugno'r olew ar y wyneb yn unig, ac nid ydynt yn cael gwared ag olew o goncrid, tarmac, slabiau pafin na'r tir, nac ychwaith o ddŵr.

Gall cynhwysydd mawr neu fwcad o dywod sych fod yn ddefnyddio ar gyfer amsugno olew. Dylid cael cynhwysydd tywod â chaead oherwydd ni fyddai tywod gwlyb yn gweithio.

Peidiwch â gadael i olew a ollyngwyd olchi i ffwrdd yn y glaw, a pheidiwch â chaniatáu, neu ei annog i olchi i lawr draen, neu mewn i bwl neu gwrs dŵr.

Dylid gwaredu ar baddiau, tywod, cadachau a gronynnau sydd wedi amsugno olew yn syth, ac yn gywir. Cysylltwch â'ch Cyngor Lleol am gyngor.

Yswiriant

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol ac yn deall y lefelau o yswiriant mae eich polisi yswiriant yn ei gynnwys.

Efallai ni fydd cwmnïau yswiriant yn talu os oes tanc wedi gollwng ac wedi'i anwybyddu dros amser. Mae'n bwysig gwirio eich tanc a'ch pibelli'n rheolaidd am ollyngiadau ac i fonitro faint o olew rydych yn ei ddefnyddio. Gall cynnydd yn y swm o olew rydych yn defnyddio neu ostyngiad sydyn yn yr olew yn eich tanc olygu ei fod yn gollwng.

Bydd rhai polisiâu'n cynnwys yswiriant ar gyfer costau glanhau olew a ollyngwyd, a achoswyd gan danciau a ddifrodwyd, lladrad a damweiniau, ond nid yw pob un yn gwneud, ac mae hyn yn rhywbeth y dylech ofyn i'ch cwmni yswiriant ei gynnwys pan rydych yn prynu'r polisi.

Mae rhai polisiâu'n cynnwys yswiriant ar gyfer disodil'r olew sydd wedi'i gollu o ganlyniad i ollyngiad, yn unig.

Mae'n bwysig bod eich polisi yn cynnwys yswiriant ar gyfer gollyngiadau a diferion olew, lladrad, difrod damweiniol, difrod i'ch eiddo ac eiddo eich cymydog a chostau glanhau. Dylai'r polisi gynnwys yswiriant ar gyfer colledion i chi ac eraill, megis cyflenwadau dŵr preifat/ffynnon ar eich eiddo a thir cyfagos.

Os nad oes gan eich polisi yswiriant yn erbyn hyn, yna dylech ei newid i sicrhau fod ganddo.

Os oes olew yn cael ei ollwng, ac nid oes gennych yswiriant, efallai y byddwch yn gorfod talu am gostau atgyweirio, costau gwneud yn iawn am ddifrod ac am gostau glanhau.

Eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â'r cwmni yswiriant.

Gollyngiadau Olew - y Gyfraith

Os yw olew yn cael ei golli neu ei ollwng ac mae'n achosi i'r tir, dŵr wyneb neu ddŵr daear gael eu halogi, os yw'n achosi risg annerbyniol i iechyd pobl a'r amgylchedd, neu os yw'n achosi difrod i eiddo, yna efallai bydd y Cyngor neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn i chi ei lanhau.

Efallai bydd camau ffurfiol yn cael eu cymryd fel eich bod yn ei lanhau, yn unol â;

- Rhan 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Difrod Amgylcheddol a Rheoliadau Atebolrwydd 2009
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010
- Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016

Os nad ydych yn clirio'r olew fel y gofynnwyd i chi wneud, yna rydych mewn perygl o gael eich cymryd i'r Llys. Rydych yn peryglu gostwng gwerth eich eiddo chi ac eiddo eich cymdogion hefyd, ac efallai byddwch yn cael hi'n anodd gwerthu eich cartref.

Mae'r Cyngor yn aml yn derbyn ymholiadau am eiddo sydd ar werth, ac os nad ydych wedi clirio olew a gollwyd neu a ollyngwyd, ni fydd modd i'r Cyngor ddweud wrth ddarpar brynwyr neu gyfreithwyr bod yr halogiad wedi'i drin.

Os ydych chi'n disodli tanc storio olew, neu'n gosod un fel rhan o system gwres canolog sy'n ddibynnol ar danwydd olew, neu er mwyn rhoi tanwydd mewn popty, mae'n raid i chi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu 2010. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael gan adran Rheoliadau Adeiladu eich Cyngor lleol.

Os ydych chi'n ystyried gosod neu ddisodli tanc storio olew, ac mae'r eiddo lle bydd y tanc wedi'i leoli o fewn, neu'n ymyl tir neu eiddo yn y Parc Cenedlaethol, y Broads, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardal Gadwraeth neu Safle Treftadaeth y Byd, yna dylech gysylltu ag Adran Gynllunio eich Cyngor Lleol am gyngor, gan efallai bydd angen caniatâd cynllunio arnoch cyn gwneud hynny.

Disodli a Gwaredu ar Hen Danc

Dylid disodli hen danc gyda thanc newydd gyda bwnd mewnol, ac sydd wedi'i osod gyda larwm i'ch rhybuddio chi pan mae olew yn gollwng o'r tanc i'r bwnd.

O fis Mawrth, 2016, os ydych chi'n disodli tanc neu'n gosod un am y tro cyntaf, dylai'r tanc a'r pibelli gydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Llygredd (Storio Olew) (Cymru) 2016.

Peidiwch â phrynu neu gosod tanc heb sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau yn gyntaf. Efallai y byddwch yn cael eich erlyn os nad ydyw.

Mae llawer o wneuthurwyr, cyflenwyr, dyluniadau a nodweddion i ddewis o'u plith, ac efallai na fyddai tanc sy'n addas i un eiddo, yn addas i un arall. Nid oes dewis 'un maint i ffitio pawb'.

Nid yw'n cael ei argymhell eich bod yn gwneud DIY ar eich tanc storio olew, pibelli neu'r system gwres canolog, oherwydd os y byddwch yn gwneud camgymeriad ac yn achosi i olew ddiferu neu ollwng, efallai y bydd eich polisi yswiriant yn cael ei effeithio, ac o ganlyniad, ni fyddent yn fodlon talu am unrhyw atgyweiriadau na gwaith glanhau.

Cyn cynnal unrhyw waith i osod eich tanc newydd, bydd Rheoliadau Adeiladu yn gofyn eich bod yn hysbysu eich Arolygydd Adeiladau, Rheoliadau Adeiladu yr Awdurdod Lleol eich bod yn bwriadu gosod tanc newydd.

Nid gosod tanciau newydd sydd angen i chi roi gwybod i'r Arolygydd Adeiladau yn unig, dylech ei hysbysu os ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw un o'r canlynol hefyd,

- Gosod tanc olew
- Gosod pibelli
- Goson neu ddefnyddio teclyn sy'n ddibynnol ar danwydd olew, megis stôf, popty neu foeler
- Gosod, addasu neu ddefnyddio system gwres canolog newydd
- Gosod neu addasu ffliw, leinar ffliw, neu gorn simnai
- Gosod tanc neu system storio dŵr poeth

Gall fod yn ddefnyddiol trafod eich cynlluniau gyda Arolygydd Adeiladau gan arbed amser ac arian i chi, cyn penderfynu beth i'w brynu, pwy i benodi a pha waith i'w wneud.

Dylai cwmni gwastraff trwyddedig addas ddraenio unrhyw olew gweddillol a slwtsh olewaidd o'r tanc. Dylai cwmni gwastraff trwyddedig addas gymryd olew, slwtsh ar tanc i ffwrdd a'i waredu.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn trosglwyddo eich gwastraff i gwmni trwyddedig addas, a'ch bod yn cadw'r gwaith papur a'r derbynebau (a elwir yn Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff) y mae'n rhaid iddynt eu rhoi i chi. Mae'n rhaid i chi eu cadw am 4 blynedd.

Mae cyngor ar waredu eich gwastraff, yn ogystal â gwirio bod gan y cwmni rydych yn bwriadu eu penodi drwydded, ar gael drwy gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Beth i'w wneud os ydych yn canfod bod olew wedi ei golli neu'n gollwng

Os ydych chi'n canfod bod olew wedi cael ei golli neu'n gollwng, mae nifer o gamau y dylech eu cymryd i sicrhau ei fod yn cael ei drin ar unwaith ac yn gywir, ac i'w atal rhag gwaethygu.

Mae'r camau canlynol yn esbonio beth y dylech ei wneud a phwy y dylech eu hysbysu, yn ogystal â phwy all helpu gyda mynd i'r afael â digwyddiad.

- Gweithredwch ar unwaith
- Stopiwch yr olew rhag diferu neu ollwng wrth ei ffynhonnell, ar unwaith
- Rhowch fwced neu gynhwysydd addas o dan y man lle mae'r olew yn diferu i'w ddal. Peidiwch â defnyddio cynhwysyddion sy'n debygol o storio bwyd ar gyfer pobl neu anifeiliaid. Bydd angen taflu cynhwysyddion sydd wedi cynnwys olew.

- Rhwystrwch yr olew a ollyngwyd rhag lledaenu. Defnyddiwch dywod sych, cit gorlif neu ddeunydd arall sy'n dda am amsugno.
- Peidiwch â gadael i'r olew ddod i gysylltiad â'ch croen a'ch dillad.
- Golchwch eich dwylo a pheidiwch ag ysmegu, bwyta neu yfed pan, neu ar ôl dod i gysylltiad ag olew.
- Cadwch blant ac anifeiliaid anwes i ffwrdd o'r ardal yr effeithiwyd arni.
- Trefnwch bod gweddill y tanwydd sy'n debygol o ddiferu o'r tanc yn cael ei dynnu ohono gan gyflenwr tanwydd neu rhywun â thrwydded addas i'w waredu. Peidiwch â cheisio gwneud hyn eich hun, a pheidiwch â storio olew mewn adeilad neu sied, na cherbyd.
- Os yw eich cyflenwad dŵr neu bibell eich cyflenwad dŵr wedi cael ei effeithio, peidiwch ag yfed y dŵr a chysylltwch â'ch cyflenwr dŵr, er enghraifft, Dŵr Cymru.
- Peidiwch â golchi'r olew i ffwrdd
- Peidiwch â defnyddio powdwr golchi dillad neu sebon
- Cysylltwch â'ch Cyngor Lleol a gofynnwch am y Swyddog Tir Halogedig
- Cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru ar eu rhif 24 awr
0300 065 3000
- Rhwystrwch yr olew rhag mynd i ddraeniau a chyrsgiau dŵr.
- Os yw olew yn mynd i mewn i ddraen neu o dan adeilad, cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân.
- Dywedwch wrth eich cwmni yswiriant a hawliwch ar gyfer cost y gwaith atgyweirio a glanhau.
- Cadwch gofnod o unrhyw gamau gweithredu rydych wedi eu cymryd.

Pwy i Gysylltu

Cyngor Sir y Fflint
 Swyddog Tir Halogedig
 Rheoli Llygredd
 Neuadd y Sir
 Yr Wyddgrug
 Sir y Fflint
 CH76NF

01352 703400

Cyfoeth Naturiol Cymru

0300 065 3000

Dŵr Cymru

0800 0520130